

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau sy'n dwyn y teitl: Deiseb P-04-682 – Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 Mewn Plant a Phobl Ifanc

Er na all Llywodraeth Cymru gefnogi'r ddeiseb wreiddiol yn sgil y cytundeb bod diffyg tystiolaeth o effeithiolrwydd rhaglen sgrinio'r boblogaeth, croesawaf yr argymhellion penodol a wnaed yn dilyn hynny gan y Pwyllgor Deisebau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am ymdrechion y deisebydd, gan weithio gyda Diabetes UK Cymru, i wella ymwybyddiaeth o ddiabetes math 1 ymysg y cyhoedd a gweithiwr iechyd proffesiynol yng Nghymru.

Cydnabyddir pwysigrwydd canfod diabetes math 1 yn gynnar yng Nghynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes. Mae canllawiau clir ar waith i gefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol wrth ymchwilio achosion tybiedig o ddiabetes ac mae cymhlethdodau diabetes yn cael eu cofnodi fel rhan o'r Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol. Mae'r Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc wedi gwneud gwaith pwysig i ddatblygu llwybr atgyfeirio cenedlaethol i gefnogi byrddau iechyd i weithredu'r canllawiau mewn modd cyson. Mae gwaith ychwanegol a wnaed gan nifer o randdeiliaid pwysig bellach yn dwyn ffrwyth; fel: byrddau iechyd yn cofnodi ac adolygu achosion o ddiagnosis annigonol, yr ymgyrch ymwybyddiaeth o dan arweiniad Diabetes UK Cymru a'r deisebydd, yr hyfforddiant sydd ar gael gan y Gymdeithas Ddiabetes Gofal Sylfaenol, yn ogystal â'r canllawiau ar gyfer byrddau iechyd ynghylch profion pwynt gofal.

Rwy'n falch o allu derbyn neu dderbyn mewn egwyddor bob un o'r argymhellion a wnaed gan eu bod yn cyd-fynd yn dda â'r gwaith sydd ar y gweill neu a wnaed eisoes. Rwyf hefyd wedi rhoi ystyriaeth ofalus i werth argymhelliad deg. Er fy mod yn cytuno bod bwriad da yn sail iddo, nid wyf wedi fy narbwylllo'n llwyr ei fod yn ddull effeithiol o leihau diagnosis hwyr o ddiabetes math 1 ac rwy'n ymwybodol o'r nifer o glefydau plentyndod eraill y byddai yr un mor werthfawr eu cynnwys. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau addysgol yn gallu cyflawni eu dyletswydd gofal. Er mwyn i hynny ddigwydd, dylai'r ffocws fod ar y cyfrifoldebau diogelu ac ar ddelio'n gywir ag argyfyngau iechyd. Fodd bynnag, rwyf wedi derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor gan y byddwn yn parhau i chwilio am ffordd i ymgysylltu â'r staff priodol lle bo modd.

Ceir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod symptomau "4T" diabetes math 1 yn cael eu gofyn yn rheolaidd pan fo plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno i ofal sylfaenol, a bod profion diagnostig priodol, er enghraifft defnyddio profion glwcos yn y gwaed drwy bigo bys, yn cael eu gwneud ar unwaith pan fydd symptomau a allai fod yn arwydd o ddiabetes math 1 yn bresennol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) sy'n rhoi cyfarwyddyd i weithwyr iechyd proffesiynol ynghylch adnabod ac ymchwilio i achosion tybiedig o ddiabetes. Nid yw hyn yn argymhell y gofynnir i bob plentyn sâl ynghylch y symptomau o ddiabetes math 1. Rhaid i glinigwyr ddefnyddio eu disgrisiwn, ar sail eu hyfforddiant a'r canllawiau sydd ar gael, i lywio'r archwiliadau o blant gwael. Mae hyn yn gyson â thystiolaeth Diabetes UK Cymru y dylid cynnal prawf pigo'r bys wedyn os gwelir bod gan y plentyn unrhyw un o'r symptomau.

Mae gan fyrddau iechyd yng Nghymru brosesau rheolaidd ar gyfer dosbarthu canllawiau NICE ac mae clinigwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chanllawiau o'r fath. Yn ogystal, mae'r llwybr atgyfeirio a gyflwynwyd i'r holl fyrddau iechyd yn atgyfnerthu'r meini prawf a'r dull o asesu achosion tybiedig o ddiabetes ymysg plant a phobl ifanc. Ymrwymodd Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes hefyd i ymgyrch codi ymwybyddiaeth gyhoeddus, o dan arweiniad Diabetes UK Cymru fel partneriaid ar y Grŵp Gweithredu Diabetes, a ddarparwyd ar y cyd â'r deisebydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau NICE ar ddiagnosis diabetes math 1 yn cael eu gweithredu'n gyson yn GIG Cymru. Yn benodol drwy sicrhau bod clinigwyr gofal sylfaenol yn ymwybodol o symptomau'r "4T" o ddiabetes math 1 ac y dylid cynnal profion priodol ar frys, a bod achosion o ddiabetes math 1 a amheuir bob amser yn cael eu hatgyfeirio i ofal arbenigol ar unwaith.

Ymateb: Derbyn

Fel y disgrifiwyd o dan argymhelliad un, cyflwynwyd llwybr atgyfeirio cenedlaethol ar sail canllawiau NICE, yn ogystal â deunydd codi ymwybyddiaeth a ddatblygwyd gan Diabetes UK Cymru, i bob bwrdd iechyd. Ochr yn ochr â hyn, mae byrddau iechyd yn cofnodi achosion o ddiagnosis annigonol fel achosion diogelwch cleifion i hyrwyddo dysgu ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrwydd gan fyrddau iechyd bod offer priodol ar gyfer profi glwcos yn y gwaed ar gael ym mhob lleoliad gofal sylfaenol perthnasol, a bod gan bob meddyg teulu fynediad at offer a all helpu i nodi achosion posibl o ddiabetes math 1 ar ôl eu cyflwyno.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd drwy fforwm fel y Cyfawryddwyr Meddygol Cynorthwyol dros Ofal Sylfaenol a/neu'r Rhwydwaith Profion Pwynt Gofal ynghylch argaeledd mesuryddion mewn gofal sylfaenol. Fodd bynnag, cyflwynwyd canllawiau ar y profion pwynt gofal eisoes i fyrddau iechyd ac

ailgadarnhawyd hyn yn ddiweddar fel rhan o'r broses o ddsbarthu'r llwybr atgyfeirio.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, mewn partneriaeth â chyrff proffesiynol a byrddau iechyd, sut i sicrhau y gellir cefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol, yn enwedig meddygon teulu, i adnewyddu a gwella eu gwybodaeth am ddiabetes math 1 er mwyn cynyddu diagnosis cynnar.

Ymateb: Derbyn

Fel y disgrifiwyd o dan argymhelliad un, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ysgrifennu at y byrddau iechyd ynghylch y llwybr atgyfeirio cenedlaethol a, thrwy wneud hynny, mae wedi amlygu argaeledd deunydd codi ymwybyddiaeth ac e-ddysgu ar gyfer diabetes math 1 mewn plant a phobl ifanc.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 5

Dylid cyflwyno modiwl e-ddysgu ar gyfer diabetes math 1 ar draws practis cyffredinol, a phroffesiynau perthnasol eraill, cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Ymateb: Derbyn

Mae gan y Gymdeithas Ddiabetes Gofal Sylfaenol fodiwl e-ddysgu ar y diagnosis o ddiabetes math 1 mewn plant a phobl ifanc a hyrwyddwyd hwn i fyrddau iechyd pan gyflwynwyd y llwybr atgyfeirio ar 20 Mehefin.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wneir gan Rwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc Cymru i ddatblygu llwybr atgyfeirio diabetes math 1 ar gyfer gofal sylfaenol. Dylai'r peilot sy'n cael ei gynnal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gael ei werthuso fel blaenoriaeth a'i gyflwyno'n gyflym ledled Cymru os dangosir ei fod yn effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r llwybr atgyfeirio eisoes wedi'i gyflwyno i'r holl fyrddau iechyd yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am sicrwydd gan fyrddau iechyd bod hwn yn cael ei fabwysiadu'n lleol. Bydd y timau gofal eilaidd yn cyflwyno llwybr atgyfeirio i gydweithwyr gofal sylfaenol er mwyn cefnogi'r broses o'i fabwysiadu.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ffordd o fonitro gwelliant o ran diagnosis o ddiabetes math 1, drwy broses archwilio ffurfiol neu fecanwaith priodol arall.

Ymateb: Derbyn

Mae'r broses o gael diagnosis o ddiabetes math 1 eisoes yn cael ei monitro a'i chofnodi drwy'r Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 8

Mewn achosion lle mae diabetes math 1 wedi cael ei ddiagnosisio ar ôl dechrau Cetoacidosis Diabetig, dylai fod yn ofynnol i sefydliadau gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol gynnal adolygiad o'r achos a dylid rhannu'r dysgu o hyn yn eang.

Ymateb: Derbyn

Mae gan bob sefydliad bolisiau ar waith i sicrhau bod achosion diogelwch cleifion lle bu achos o ddiagnosis annigonol yn cael eu cofnodi a'u hadolygu er mwyn hwyluso dysgu a gwella a'u rhannu â'r clinigwyr o dan sylw.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffordd o dynnu sylw at symptomau diabetes math 1, a'r angen am geisio profion ar frys, mewn gwybodaeth a gyflwynir yn rheolaidd i rieni plant ifanc. Gallai hyn gynnwys ystyried a ddarperir digon o wybodaeth yn y llyfr beichiogrwydd, y cofnod iechyd plant personol, a gwiriadau rheolaidd gyda gweithwyr proffesiynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Nid yw darparu gwybodaeth am symptomau i rieni yn ystod beichiogrwydd neu'r blynyddoedd cynnar ar gyfer cyflwr sy'n eithaf prin mor hir ar ôl rhoi genedigaeth yn debygol o gefnogi'r broses o adnabod achosion o ddiabetes math 1 yn gynt. Fodd bynnag, mae Diabetes UK Cymru wedi darparu ymgyrch codi ymwybyddiaeth, fel yr ymrwymwyd iddi yng Nghynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Diabetes a dylai hyn helpu i dynnu sylw rhieni at y symptomau perthnasol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau bod yr ymgyrch "4T" yn cael ei hyrwyddo ym mhob lleoliad priodol, gan gynnwys gofal sylfaenol a hefyd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar/addysg.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn hapus i barhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r 4T ac rydym eisoes wedi ei gynnwys yn rhan o'r llwybr atgyfeirio ar gyfer gweithwyr iechyd

proffesiynol. Fodd bynnag, o ran codi ymwybyddiaeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar/lleoliadau addysgol, rhaid inni gofio nad oes tystiolaeth bob amser i brofi bod ymgyrchoedd yn effeithiol o ran darganfod cyflyrau anghyffredin fel diabetes math 1 yn gynt. Dangosodd astudiaeth ddiweddar yn Seland Newydd nad oedd unrhyw effaith yn dilyn ymgyrch wybodaeth gyhoeddus am ddwy flynedd. Er hynny, byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd i sicrhau bod y staff priodol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant megis ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol, yn ymwybodol o'r adnoddau allweddol a gyhoeddir gan Diabetes UK ac eraill, ac o'r argymhellion a wnaed gan NICE.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol